



Papur Gwybodaeth Manwl

Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd a Chymdeithasau Tai yng Nghymru

Cefndir

Cynhelir refferendwm ddydd Iau 23 Mehefin 2016 ar p'un ai a ddylai'r Deyrnas Unedig barhau yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd.

Beth yw'r Undeb Ewropeaidd?

Mae'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn bartneriaeth economaidd a gwleidyddol yn cynnwys 28 o wledydd Ewropeaidd¹. Dechreuodd yn dilyn yr Ail Ryfel Byd er mwyn meithrin cydweithrediad economaidd, gyda'r syniad bod gwledydd sy'n masnachu gyda'i gilydd yn fwy tebygol o osgoi mynd i ryfel gyda'i gilydd. Ers hynny tyfodd i ddod yn 'farchnad sengl', yn galluogi nwyddau a phobl i symud o amgylch yn rhydd. Mae ganddi ei harian cyfred ei hunan, a ddefnyddir gan 19 o aelod wladwriaethau, a'i senedd ei hunan, ac mae ganddi'r grym i osod rheolau ar ystod eang o feysydd, yn cynnwys ar yr amgylchedd, trafnidiaeth a hawliau defnyddwyr.

Sut mae'n gweithio?

Mae'r UE yn cynnwys nifer o sefydliadau sydd â gwahanol rolau mwn gwneud penderfyniadau ar lefel Ewropeaidd.

- **Y Senedd Ewropeaidd** yw Senedd yr UE. Caiff ei hethol yn uniongyrchol a'i swyddogaeth yw cynrychioli dinasyddion yr UE sy'n ei hethol. Mae'n gwneud hyn drwy graffu a phleidleisio ar ddeddfwriaeth a gweithredu goruchwyliaeth ddemocrataidd dros yr UE, ei sefydliadau a'i gyllideb.

Caiff pob gwlad ei chynrychioli gan Aelodau Seneddol Ewropeaidd (ASEau), a etholir bob pum mlynedd. Ers 2014 mae 751 ASE, gyda 73 yn cael eu hethol o'r Deyrnas Unedig, 4 ohonynt yn cynrychioli Cymru. 4 ASE Cymru yw: Derek Vaughan (Llafur Cymru), Nathan Gill (UKIP Cymru), Kay Swinburne (Ceidwadwyr Cymru) a Jill Evans (Plaid Cymru).

- **Y Comisiwn Ewropeaidd** yw gwasanaeth sifil yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n seiliedig ym Mrwsel a'i swyddogaeth yw cynrychioli'r holl UE. Caiff ei redeg gan 28 comisiynydd - un wedi'i enwebu

¹ Awstria, Yr Almaen, Bwlgaria, Croatia, Cyprus, Denmarc, Y Deyrnas Unedig, Yr Eidal, Estonia, Ffindir, Ffrainc, Gwlad Belg, Gwlad Groeg, Gwlad Pwyl, Gweriniaeth Siec, Hwngari, Yr Iseldiroedd, Iwerddon, Latvia, Lithuania, Luxembourg, Malta, Portugal, Romania, Slovakia, Slofenia, Sbaen, Sweden.



gan bob aelod wladwriaeth - ac mae'n rheoli llawer o wariant yr UE yn ogystal â chynnig deddfwriaeth.

Cynrychiolydd y Deyrnas Unedig ar y Comisiwn yw'r Barwn Hill, Arglwydd Ceidwadol a chyn Arweinydd Tŷ'r Arglwyddi.

- Mae'r **Cyngor Ewropeaidd** yn cynrychioli llywodraethau aelod wladwriaethau'r UE. Daw ynghyd â phennaeth pob aelod wladwriaeth a dyma'r corff sy'n gosod cyfeiriad gwleidyddol cyffredinol yr UE.

Y Refferendwm - Y Cyd-destun Gwleidyddol

Mae'r refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd yn ganlyniad ymgyrch gynyddol dros nifer o flynyddoedd gan yr UK Independence Party (UKIP) a nifer o Aelodau Seneddol amlwg ar y meinciau cefn (yn bennaf y Blaid Geidwadol). Bu aelodaeth o'r UE yn bwnc llosg ers i'r Deyrnas Unedig ymuno â'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd (EEC) yn 1973. Cymeradwyodd y refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r EEC yn 1975 ymuno gan 67.23% i 32.77%.

Yn 2013 cyhoeddodd y Prif Weinidog David Cameron pe byddai'n cael ei ail-ethol yn etholiad 2015 y byddai'n rhoi refferendwm i'r Deyrnas Unedig ar ei haelodaeth o'r UE. Fel canlyniad pasiwyd Deddf Refferendwm Undeb Ewropeaidd 2015 gan y Senedd i wneud darpariaeth ar gyfer y refferendwm, ac yn dilyn buddugoliaeth y Ceidwadwyr yn etholiad 2015 a thrafodaethau ar berthynas y Deyrnas Unedig gyda'r UE, pennwyd y dyddiad o 23 Mehefin.

Ail-negodi gan y Prif Weinidog

Pan gyhoeddwyd y refferendwm, nid oedd yn glir ar ba ochr y byddai'r Prif Weinidog yn ymgyrchu, wrth iddo addo ail-negodi'r berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r UE i fynd i'r afael â phryderon llawer o'r rhai oedd yn ymgyrchu i adael.

Fodd bynnag, ar 19 Chwefror 2016, cyhoeddodd y Prif Weinidog iddo ddod i gytundeb i ddiwygio perthynas y Deyrnas Unedig gyda'r UE. Cytunodd arweinwyr 27 aelod wladwriaeth arall yr UE i:

1. Eithrio'r Deyrnas Unedig rhag anelu i fod yn 'undeb cynyddol agos' ²
2. Cysylltu taliadau traws-ffin o Fudd-dal Plant gyda chost byw yn y wlad gyrchfan³
3. Proses i alluogi gwledydd tu allan i barth yr Euro i godi materion am gyfreithiau'r parth Euro oedd yn peri problem⁴.
4. 'Brêc argyfwng' i alluogi unrhyw aelod i gyfyngu mynediad i fudd-daliadau mewn gwaith ar gyfer ymfudwyr UE ⁵.

² <https://fullfact.org/europe/explaining-eu-deal-ever-closer-union/>

³ <https://fullfact.org/europe/explaining-eu-deal-exporting-child-benefit/>

⁴ <https://fullfact.org/europe/explaining-eu-deal-uk-and-eurozone/>



5. Rhoi fetó 'Cerdyn Coch' ar gyfreithiau'r UE i seneddau cenedlaethol ⁶
6. Newidiadau bach i reolau symud rhydd i'w gwneud yn haws i allgludo ymfudwyr yr UE ⁷.
7. Cyfyngu hawliau preswyliaeth aelodau teulu heb fod o'r Undeb Ewropeaidd dinasyddion yr UE sy'n byw yn y Deyrnas Unedig ⁸.

Ar 20 Chwefror cymeradwyodd cabinet Llywodraeth y Deyrnas Unedig y ddêl a chytuno i argymhell bod y Deyrnas Unedig yn parhau yn yr Undeb Ewropeaidd.

Y Refferendwm - Beth mae'r ymgyrchoedd yn ei ddweud?

Dechreuodd cyfnod swyddogol ymgyrch y refferendwm ar 13 Ebrill 2016, pan gafodd yr ymgyrchoedd swyddogol eu dynodi gan y Comisiwn Etholiadol. Enwyd 'Britain Stronger in Europe' - sydd â chefnogaeth Prif Weinidog y Deyrnas Unedig, yn ogystal ag arweinwyr y Blaid Lafur, y Democratiaid Rhyddfrydol, Plaid Cymru, SNP a'r Blaid Werdd - fel yr ymgyrch swyddogol ar gyfer y rhai sydd eisiau parhau yn yr Undeb Ewropeaidd.

Yn ddadleuol, rhoddwyd y statws ymgyrch swyddogol ar gyfer y rhai sydd eisiau gadael yr Undeb Ewropeaidd i ymgyrch 'Vote Leave' - sydd â'i chefnogwyr proffil uchel yn cynnwys Boris Johnson a Michael Gove - yn hytrach na'r ymgyrch 'Grassroots Out' a gefnogwyd gan Nigel Farage, arweinydd UKIP.

Mae **Britain Stronger in Europe** wedi canolbwyntio ar bedwar maes yn ystod yr ymgyrch: 'Swyddi a'r Economi', 'Chi a'ch Teulu', 'Bywyd yn y Deyrnas Unedig'. Maent yn honni ⁹:

- Am bob £1 a roddwn yn yr UE, cawn bron £10 yn ôl drwy gynyddu masnach, buddsoddiad, swyddi, twf a phrisiau is
- Bod yr UE wedi cynyddu cyflogau cyfartalog yr UE gan £1,800
- Bod cyfreithiau'r UE yn diogelu hawliau gweithwyr megis absenoldeb mamolaeth ac absenoldeb gwyliau
- Bod 89% o fusnesu o blaid aros yn Ewrop

Mae **Vote Leave** wedi canolbwyntio eu hymgyrch ar ail-negodiad y Prif Weinidog, polisi ymfudo, cost yr Undeb Ewropeaidd, a democratiaeth. Maent yn honni ¹⁰:

- Nad yw ail-negodiad y Prif Weinidog yn rhwymo'n gyfreithiol, ac yn gadael yr UE yng ngofal yr un pethau fel o'r blaen
- Bod yr UE yn costio £350m yr wythnos, digon i adeiladu ysbyty GIG gyda staff llawn

⁵ <https://fullfact.org/europe/explaining-eu-deal-emergency-brake/>

⁶ <https://fullfact.org/europe/explaining-eu-deal-red-card/>

⁷ <https://fullfact.org/europe/explaining-eu-deal-deporting-eu-immigrants/>

⁸ <https://fullfact.org/europe/explaining-eu-deal-limiting-residence-rights/>

⁹ http://www.strongerin.co.uk/get_the_facts#WT5AI52GSSuiBXR9.97

¹⁰ http://www.voteleavetakecontrol.org/our_case



- Daw chwarter miliwn o ymfudwyr yr UE i'r Deyrnas Unedig bob blwyddyn
- Bod rheoliadau'r UE yn niweidiol iawn i economi'r Deyrnas Unedig

Sut mae'r Undeb Ewropeaidd yn effeithio ar dai?

Mae nifer o feysydd lle gall polisi'r UE ac effaith ehangach aelodaeth yr UE ddylanwadu ar dai a'r farchnad dai yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Gellir rhannu hyn yn fras i'r economi, adeiladu tai, buddsoddiad a rhyddid i redeg eich busnes.

- **Yr Economi**

Mae llawer o'r drafodaeth ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r UE wedi canolbwyntio ar gost bod yn yr UE a buddion dilynol bod yn rhan o'r 'farchnad sengl'.

Cyhoeddodd Trysorlys Ei Mawrhydi ddau adroddiad ar effaith tebygol gadael yr UE. Amcangyfrifodd y cyntaf, ar effaith hirdymor gadael, y byddai GDP y Deyrnas Unedig 6.2% yn is yn yr hirdymor ac y byddai derbyniadau treth yn wynebu 'twll du' blynyddol o £36 biliwn¹¹. Fodd bynnag, oherwydd ansicrwydd beth fyddai'n dilyn pleidlais i adael, a'r cwestiynau a fyddai'n parhau am gytundebau masnach ac ati, mae'n anodd mesur yn llawn unrhyw risg posibl yn yr effaith hirdymor.

Mae ail adroddiad y Trysorlys, ar effeithiau uniongyrchol pleidlais i adael, hefyd yn cyflwyno darlun economaidd heriol. Mae'n dweud:

"A vote to leave would cause an immediate and profound economic shock creating instability and uncertainty which would be compounded by the complex and interdependent negotiations that would follow. The central conclusion of the analysis is that the effect of this profound shock would be to push the UK into recession and lead to a sharp rise in unemployment."

Rhybuddiodd y Canghellor hefyd y gallai pleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd arwain at ostyngiad o hyd at 18% mewn prisiau tai erbyn 2018. Disgwylir y cyhoeddir dadansoddiad pellach gan y Trysorlys yn y dyfodol agos.

- **Adeiladu Tai**

Caiff adeiladu tai yn y Deyrnas Unedig ei gefnogi gan fynediad y Deyrnas Unedig i'r farchnad sengl, a dwy o'r egwyddorion allweddol sy'n llywio hyn

1. Bu **symudiad rhydd gweithwyr** yn hollbwysig wrth fynd i'r afael â'r prinder sgiliau yn y diwydiant adeiladu. Yn 2007, roedd dinasyddion yr UE yn ffurfio 3.65% o weithlu adeiladu'r Deyrnas Unedig

¹¹ <https://www.gov.uk/government/publications/hm-treasury-analysis-the-long-term-economic-impact-of-eu-membership-and-the-alternatives>



¹², ond erbyn 2014 roedd hyn bron wedi dyblu i 7.03%¹³. Yn yr un cyfnod, roedd nifer dinasyddion y Deyrnas Unedig yn y diwydiant adeiladu wedi gostwng gan bron un mewn pump (tua 416,000 o weithwyr) ac ar yr un pryd roedd 24,000 o swyddi gwag yn niwydiant adeiladu'r Deyrnas Unedig.¹⁴

Dros y 11 mlynedd diwethaf buom yn gynyddol ddibynnol ar lafur o aelod wladwriaethau eraill yr UE i lenwi'r bwlch sgiliau - a gweithlu. Pe byddai'r Deyrnas Unedig yn gadael yr UE, ni fyddai hawl awtomatig gweithwyr o'r UE i ymfudo, byw a gweithio yma, yn weithredol mwyach.

2. Mae **symud rhydd nwyddau** hefyd yn bwysig i gymdeithasau tai yng Nghymru, yn neilltuol yn nhermau adeiladu. Mae'r diwydiant adeiladu wedi dibynnu ar fewnforion o Ewrop mewn blynyddoedd diweddar, yn neilltuol frics (o Wlad Belg a Denmarc) a deunyddiau eraill megis blociau concrit a deunyddiau ar gyfer adeiladau wedi'u rhagffurfio. Yn 2014, roedd gwerth net mewnforion brics a blociau concrit o'r UE bron yn £7m.

Caiff symudiad rhydd nwyddau ei ddiogelu dan gytuniadau'r UE. Caiff gwladwriaethau eu gwahardd rhag codi tollau ar fewnforion ac allforion a phob cost sydd ag effaith tebyg. Ym mis Tachwedd 2015, cofnododd y DU ddiffyg masnach (mewn nwyddau) o £8.2bn gyda'r UE.¹⁵ Byddai cynnydd mewn tariffau masnach felly'n cael effaith sylweddol ar yr economi.

- **Buddsoddiad**

Mae tri maes lle mae'r Undeb Ewropeaidd yn cael effaith sylweddol ar gyllid ar gyfer cymdeithasau tai:

1. Mae **Cyllid yr UE** ar gael i gymdeithasau tai i ystod eang o ffynonellau, yn cynnwys cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a ffynonellau eraill o gyllid drwy Fanc Buddsoddi Ewrop (EIB).

Rhwng 2014 a 2020, cafodd pum rhaglen weithredol, yn benodol yn ymwneud â thai eu mabwysiadu yn y Deyrnas Unedig ar gyfer buddsoddiad o'r fath, gyda dwy ohonynt yng Nghymru.¹⁶ Mae'r rhaglenni hyn, a'r cyllid ar eu cyfer, yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd ynni a chynhwysiant cymdeithasol. Mae'r symiau o arian sydd ar gael yn sylweddol gyda degau o filiynau o Euros yn cael eu dyrannu'n aml i raglenni unigol (rhanbarthol) a phot canolog o €50 biliwn ar gyfer effeithiolrwydd yn unig.

¹² ONS, Employment by nationality and industry sector, 2007 & 2014

¹³ ONS, Employment by nationality and industry sector, 2007 & 2014

¹⁴ ONS, Labour Market Dataset, November 2015

¹⁵ ONS, Statistical Bulletin: UK Trade, November 2015

¹⁶ Housing Europe, 'Structural Funds and Housing in 2014-2020: The implementation of the European Structural and Investment Funds for Housing Projects in the European Union' (Brwsel: Housing Europe, 2015).



2. Caiff **Cymorth Gwladol** (arian neu unrhyw fuddion eraill sy'n ystumio cystadleuaeth) ei wahardd dan gytuniadau a chyfreitheg yr UE. Fe'i diffinnir yn y gyfraith fel unrhyw gymorth a roddir gan Aelod Wladwriaeth neu drwy adnoddau mewn unrhyw ffurf o gwbl sy'n ystumio neu fygwth ystumio cystadleuaeth drwy ffafrio ymgymeriadau neilltuol neu gynhyrchu nwyddau neilltuol.

Yn gyffredinol *nid* yw grantiau cymdeithasau tai yn cael eu gwahardd fel 'cymorth gwladol'. Mae hyn oherwydd bod tai cymdeithasol yn 'wasanaeth o fudd economaidd cyffredinol' sydd yn cael ei eithrio o'r rheolau gan gytuniadau'r UE.

Ond, yn dilyn penderfyniad gan y Comisiwn Ewropeaidd, mae'r gwaharddiad yn weithredol i grantiau cymdeithasau tai mewn rhai amgylchiadau. Dim ond i'r swyddogaethau neu wasanaethau a berfformir gan sefydliad sydd o fudd economaidd cyffredinol y mae eithriadau gwasanaeth o fudd economaidd cyffredinol yn weithredol. Nid ydynt yn weithredol ar gyfer y sefydliadau sy'n gwneud y swyddogaethau hynny, p'un ai'n llwyr neu wrth ochr gweithgareddau busnes eraill. Felly caiff grantiau neu 'gymorth' arall sy'n cefnogi swyddogaethau cymdeithasau tai nad ydynt o fudd economaidd cyffredinol eu gwahardd dan gyfraith yr UE.

3. Mae **symudiad rhydd cyfalaf** yn un o egwyddorion sylfaenol cytuniadau'r Undeb Ewropeaidd, ac felly, mae diogelu buddsoddiad uniongyrchol a buddsoddiad mewn eiddo tirol yn golygu fy caiff hawl Ewropeaidd i fuddsoddi mewn eiddo tirol yn y Deyrnas Unedig ei ddiogelu.

Pe byddai'r Deyrnas Unedig yn gadael yr UE, mae'n bosibl y gellid gostwng cystadleuaeth tir lle mae cymdeithasau'n prynu lleiniau newydd ar gyfer eu datblygu. Fodd bynnag, mae maint buddsoddiad Ewropeaidd mewn tir yng Nghymru yn llawer llai nag yn ne ddwyrain Lloegr, ac mae unrhyw effaith yn debygol o fod yn fach iawn.

Mae hefyd yn werth nodi fod symud rhydd cyfalaf hefyd yn bodoli yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, ac oherwydd yr hanfodion gwleidyddol ac economaidd i gadw'r symudiad rhydd o gyfalaf rhwng y Deyrnas Unedig a'r UE, mae'n annhebygol iawn y byddai unrhyw gytundeb newydd pe pleidleisid i adael yn ceisio newid i sefyllfa'r sefyllfa fel y mae.

- **Rhyddid i redeg eich busnes**

Mae gan yr UE nifer o reoliadau a all gael effaith ar ryddid cymdeithasau tai i redeg eu busnes, yn arbennig ym maes caffaeliad cyhoeddus.

1. Cafodd gofynion gweithdrefnol **Caffaeliad Cyhoeddus** eu gweithredu ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru ers 2004, ac yn helpu i greu system ar gyfer cydweithredu contract cyhoeddus o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

Pe byddai'r Deyrnas Unedig yn pleidleisio i adael yr UE, gall mynediad y Deyrnas Unedig i Dendrau a Chaffaeliad Cyhoeddus yr OJEU ('Official Journal of the European Union') ei bennu,



a byddai angen negodi perthynas caffaeliad fel rhan o unrhyw ddêl. Dengys arfer cyffredinol fod yr UE yn fodlon iawn caniatáu i wladwriaethau tu allan i'r UE i ymwneud gyda'r broses OJEU.

Cafodd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir eu rhwymo gan reolau caffaeliad cyhoeddus yr OJEU ac mae'n annhebygol iawn y byddai pleidlais i adael yr UE yn tynnu cymdeithasau tai o'r rheolau hyn yn yr hirdymor.

Beth yw'r risgiau i gymdeithasau tai o adael yr Undeb Ewropeaidd

Yr Economi:

Mae'r blaen-estyniadau tymor byr a thymor hir a wnaed gan y Trysorlys yn awgrymu gostyngiad sylweddol yn economi Prydain, fyddai'n cael goblygiadau sylweddol ar y marchnadoedd ariannol, y farchnad tai a'r amgylchedd economaidd ehangach y mae cymdeithasau yn gweithredu ynddo.

Adeiladu Tai:

Byddai cyfyngiadau ar ymfudo UE pe byddai pleidlais yi gadael yn golygu y gellid gwahardd gweithwyr adeiladu newydd yn syth rhag dod i mewn i'r Deyrnas Unedig.

Mae cytundebau rhwng yr UE a gwledydd eraill - yn cynnwys y Swistir a rhai yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd - yn ymgorffori symud rhydd gweithwyr. Pe byddid yn gadael yr UE, mae'n debyg y gallai dêl rhwng y Deyrnas Unedig a'r UE adlewyrchu'r cytundebau hyn yn gyffredinol. Fodd bynnag, oherwydd y pwyslais gwleidyddol a roddwyd ar fewnfudo yn y drafodaeth ar yr UE, byddai'n anodd iawn yn wleidyddol i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gynnwys symud rhydd pobl mewn unrhyw gytundeb.

Gallai gadael yr UE hefyd gynyddu cost mewnfurio deunyddiau adeiladu a nwyddau eraill. Mae'r cytundebau masnachu di-dariff presennol sy'n bodoli ac yn galluogi mewnfurio brics ac ati o'r UE yn dibynnu ar naill ai a) aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r UE neu b) gydweithrediad gwladwriaethau eraill, a'u parodrwydd i ymrwymo'n rhydd i gytundebau masnach i gadw costau tariff yn isel.

Mae symud rhydd nwyddau'n gweithredu yn y cytundeb o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, ac mae cytundeb y Swistir yn cynnwys darpariaethau masnach rydd debyg. Ymddengys yn debygol iawn y byddai cytundeb masnach rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig yn cynnwys erthyglau tebyg. Fodd bynnag, yn hanesyddol cymerodd cytundebau fel hyn flynyddoedd i'w negodi. Mae prinder mawr o ddeunyddiau megis brics yn yr diwydiant adeiladu ar hyn o bryd, ac mae'n debygol y bydd effaith tymor byr eu mewnfurio heb gytundeb masnach ei deimlo'n fawr.

Buddsoddi:



Pe byddai'r Deyrnas Unedig yn pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd, mae'n annhebygol iawn y byddai'r ystod eang o ffynonellau cyllid yr UE y gallai cymdeithasau tai gael mynediad iddynt ar gael. Fodd bynnag, dim ond tan 2020 mae'r cylch presennol o gronfeydd strwythurol yr UE wedi ymrwymo.

Mae rhai cymdeithasau tai mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig wedi sicrhau cytundebau cyllid sylweddol gyda'r EIB, ac nid yw'n glir beth fyddai'n digwydd i drefniadau cyllid presennol. Pe byddai'r cyllid yma'n dal i fod ar gael pe byddai pleidlais i adael, mae'n debygol y bydd unrhyw gytundebau benthyca yn y dyfodol gyda'r EIB yn debygol o fod â chyfyngiadau mwy sylweddol nag o'r blaen, fel y gwelir mewn cytundebau fel yr un rhwng yr UE a'r Swistir.

Newidiadau i fudd-daliadau:

Ynghyd â rhaglen barhaus o ddiwygio lles, yn cynnwys cyflwyno Credyd Cynhwysol, roedd cyfran sylweddol o ailnegodiad Prif Weinidog y Deyrnas Unedig gyda'r UE yn canolbwyntio ar newidiadau lles. Bydd y newidiadau hyn yn golygu bod angen newid deddfwriaethol drwy sefydliadau'r UE ar ôl y refferendwm, ond yn neilltuol, gallai'r 'brêc argyfwng' ar fudd-daliadau mewn gwaith ar gyfer ymfudwyr yr UE achosi problem i gymdeithasau lle maent yn cartrefu dinasyddion yr UE.

Buddsoddi:

Byddai aros yn yr UE yn golygu y byddai'r achos cyfraith cymhleth sy'n weithredol ar gyfer gwahardd cymorth gwladol yn parhau. Mae cwestiynau am allu llywodraeth i roi cymorth ariannol i rai cynnyrch perchnogaeth cartrefi cost isel oherwydd cyfreithiau cymorth gwladol. Er enghraifft yn Lloegr, mae'r sefyllfa ar gyllid ar gyfer 'cartrefi cyntaf' a rheolau cymorth gwladol yn aneglur ar hyn o bryd. Pe byddai'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, byddai'r gyfraith achos yma'n peidio bod yn weithredol a byddai cymdeithasau tai yn rhydd i barhau heb bryderu y gallai'r UE flocio grant llywodraeth.

Os pleidleisiwn i adael, beth sy'n digwydd nesaf?

Mae Erthygl 50 y Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd yn rhoi gweithdrefn ar gyfer i aelod wladwriaeth adael yr UE. Yn dilyn pleidlais i adael, a'r Deyrnas Unedig yn mynd, byddai gan Lyworaeth y Deyrnas Unedig ddwy flynedd i negodi cytundeb newydd cyn y byddem yn dod yn 'wladwriaeth trydydd gwlad' a cholli pob hawl pleidleisio a hawliau eraill aelodaeth o'r UE.

Casgliad

Grŵp
Cartrefi
Cymunedol
Cymru



Community
Housing
Cymru
Group

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn sefydliad gwleidyddol niwtral ac ni fyddwn yn cymryd safbwynt ar refferendwm yr UE. Bwriad y papur gwybodaeth yma yw hysbysu ein haelodau am y cyd-destun ar gyfer refferendwm yr UE, safbwyntiau'r ddwy ymgyrch a'r ffordd y mae'r UE yn effeithio ar ein haelodau ar hyn o bryd a sut mae hyn yn debygol o newid pe byddai'r Deyrnas Unedig yn pleidleisio i adael yr UE.

Byddwn yn parhau i hysbysu aelodau am wybodaeth berthnasol am y refferendwm yn y cyfnod cyn ac ar ôl 23 Mehefin a byddwn yn gweithio'n agos gyda gwleidyddion a gweision sifil i sicrhau fod ein haelodau'n barod i drin unrhyw heriau tymor byr a hirdymor a ddaw yn sgil y canlyniad.